

Tel / Ffôn: 01495 311556

Email / E-bost: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk

Our Ref. / Ein Cyf.

Your Ref. / Eich Cyf.

Date. / Dyddiad. 17.7.2026

Annwyl Ymgynghorwyd,

HYSBYSIAD PENDERFYNIAD

Cyfeirir at yr Hysbysiad Statudol dyddiedig 5ed o Fai 2026 ("yr Hysbysiad Statudol") a gyhoeddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ("y Cyngor"), a oedd yn manylu ar y cynnig canlynol:

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig Lleihau capasiti'r ysgol gynradd, sy'n rhan o Gymuned Ddysgu Abertylery, o 980 i 770, gan leihau capasiti ffisegol Cymuned Ddysgu Abertylery trwy gau Campws Heol Roseheyworth a symud y disgyblion i'r campysau sy'n weddill (Campws y Chwe Chloch a Champws Stryd Tyleri) gyda'r cynnig yn cael ei roi ar waith yn raddol gan ddechrau o fis Medi 2026 a chan gael ei roi ar waith yn llawn erbyn mis Medi 2027.

Derbyniwyd cyfanswm o 389 o wrthwynebiadau statudol yn ystod y cyfnod Hysbysiad Statudol 28 diwrnod. Mae'r Adroddiad Gwrthwynebiad sy'n crynhoi canlyniad y cyfnod Hysbysiad Statudol wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn unol ag adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") ac adran 5.1 o Gôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 Fersiwn 2 ("y Cod").

Ar ddydd Mercher 15 o Orffennaf 2026, yn unol â'r gofynion a nodir yn Neddf 2013 a'r Cod cysylltiedig, ystyriodd Cyngor LLawn y Cyngor y cynnig yn unol â chanlyniad y cyfnod Hysbysiad Statudol, gan nodi bod 389 o wrthwynebiadau ffurfiol i'r cynnig.. Felly, penderfynodd y Cyngor Llawn y dylid gweithredu'r cynnig a fanylir yn yr Hysbysiad Statudol.

ADRODDIAD GWRTHWYNEBIAD

Gellir dod o hyd i gopi o'r Adroddiad Gwrthwynebiad mewn perthynas â'r Hysbysiad Statudol ar wefan y Cyngor drwy'r ddolen ganlynol: [Cynnig i leihau'r capasiti yng Ngham Gynradd Cymuned Dysgu Abertylery | Blaenau Gwent CBC](#) hefyd ar gael gan y Cyngor ar gais.

Cofion cynnes

Pennaeth Adnoddau a Chynllunio Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn cyfathrebu gyda chi yn eich dewis iaith, dim ond i chi rhoi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.

The Council welcomes correspondence in Welsh and English and we will communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to any delay.